Ysgol Pentreuchaf

77. Polisi Diogelwch Rhag yr Haul

Nod

Sicrhau ein bod yn amddiffyn plant ac oedolion rhag effeithiau'r haul.

Amcanion

O ystyried newidiadau yn y tywydd, teithiau ysgol a gweithgareddau eraill megis mabolgampau, darparodd yr Awdurdod Addysg Lleol y Canllawiau isod ym mis Gorffennaf 2006.

Canllawiau

1. Awgrymu i'r rhieni y dylai'r plant gael gwisg addas – het neu gap haul, crys neu flows addas, yn enwedig ar gyfer ymweliadau neu weithgareddau fydd yn digwydd yn yr awyr agored.
2. Gofyn i'r rhieni roi eli haul i'w plant ymlaen llaw, ac i ddarparu cyflenwad o eli i'r plant ei ddefnyddio. Nid yw staff yr ysgol i roddi eli haul ar unrhyw blentyn, ac ni ddylai plant ddefnyddio eli haul ei gilydd oherwydd peryglon alergiau.
3. Annog y plant i geisio chwarae mewn mannau lle mae cysgod. Dylai'r staff i gyd fod yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd hwn.
4. Ceisio cynllunio gweithgareddau mewn modd fel nad yw'r plant allan pan fo'r haul ar ei gryfaf (rhwng 12.00 a 2.00 o'r gloch fel arfer).
5. Cael cyflenwad o gapiau wrth gefn i geisio cyfarfod ag anghenion plant.
6. Sicrhau fod gan y plant fynediad at ei poteli dwr, hyd yn oed ar amser chwarae pan fo'r tywydd yn boeth iawn.

Casgliad

Mae potensial i blant fod allan yn yr haul am gyfnod sylweddol a'r perygl o losg haul yn fater y dylid cael ystyriaeth fel rhan o asesiad risg. Yn y cyd-destun hwn, beth sydd yn bwysig yw bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i leihau'r risg.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____